

## **DOGFEN 4**

**DC/EM/05405/19: Nodyn Cyfarfod**

**Cyfarfod: Comisiynydd y Gymraeg a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**8 Gorffennaf 2019**

Yn bresennol: Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

Swyddogion Llywodraeth Cymru: *[Enw Swyddog], [Enw Swyddog]*

### **1. Memorandwm cyd-ddealltwriaeth / strwythurau tuag at y dyfodol**

- Nododd y Gweinidog bod hi'n ddiolchgar am y trafodaethau sydd wedi eu cynnal rhwng swyddogion gan ddiolch i'r Comisiynydd am roi sylwadau ar y drafftiau sydd wedi'u paratoi. Cytunodd AR fod y trafodaethau wedi bod yn adeiladol a'n bod ni'n agosáu at gael fersiwn derfynol.
- Nododd AR fod y Memorandwm yn cyd-fynd gyda'i weledigaeth o gael gwell balans rhwng rheoleiddio a gwneud gwaith i hybu'r Gymraeg a gweithio gyda chyrff i wella gwasanaethau.
- Dywedodd y Gweinidog bod hi'n awyddus i weld Atodiad yng nghefn y Memorandwm sy'n nodi dyletswyddau'r ddau gorff, ac y dylid adolygu'r Atodiad hynny yn achlysurol. Cytunodd AR gyda'r awgrym.

### **2. Adroddiad Pwyllgor Diwylliant ar y Gymraeg**

- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi tystiolaeth yn y Pwyllgor Dydd Mercher nesaf. Cadarnhaodd y bod hi'n gyfforddus gyda'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad. Ychwanegodd bod yr adroddiad o dan embargo ar hyn o bryd a byddai'r Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth lawn i rheiny ac yn ymateb yn ystod yr wythnosau nesaf. Nododd y Comisiynydd y byddai ef hefyd yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Medi.
- Dywedodd y Comisiynydd y byddai'r argymhellion o ddiddordeb iddo fe a gofynnodd i'r Gweinidog os byddai'r Llywodraeth yn gallu rhoi blaen rybudd iddo fe o unrhyw ymateb sy'n effeithio ar ei waith ef cyn cyhoeddi ymateb yn ffurfiol. Ddywedodd y Gweinidog byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Comisiynydd i roi blaen-rybudd o unrhyw ymateb sy'n enwi'r Comisiynydd neu sydd â goblygiadau i waith y Comisiynydd.

### **3. Diweddariad ar y safonau:**

#### **(a) cyflwyno rhagor o reoliadau safonau**

- Cadarnhaodd y Gweinidog bod bwriad i wneud 2 set o Reoliadau cyn diwedd tymor y Cynulliad, sef safonau i Rheoleiddwyr Iechyd a'r Cwmnïau Dŵr. Dywedodd y Gweinidog bod argymhellion y Pwyllgor i symleiddio safonau yn meddwl bod angen ail ymweld â'r gwaith sydd wedi digwydd hyd yn hyn ar y rheoliadau hynny i ystyried os oedd ffordd i wella'r a symleiddio'r ffordd mae safonau'n cael eu drafftio a'u cyflwyno.

#### **(b) gweithredu Safonau Iechyd (a delio gyda heriau)**

- Dywedodd y Gweinidog bod hi wedi derbyn gwybodaeth bod nifer uchel o heriau wedi'u gwneud gan gyrff iechyd i hysbysiadau cydymffurfio. Dywedodd bod hi'n awyddus bod cyrff iechyd yn ymateb yn gadarnhaol i'r safonau, a holodd y Comisiynydd os oedd y gwaith gyda'r cyrff iechyd o dan law.
- Dywedodd y Comisiynydd bod y sefyllfa gyda'r heriau mwy neu lai fel roedd e'n disgwyl. Er bod y nifer o heriau yn ymddangos yn uchel, roedd nifer o'r byrddau iechyd wedi herio'r un safonau. Dywedodd bod hyn yn gwneud gwaith ei swyddogion o ystyried yr heriau yn haws gan fod yr amgylchiadau o gorff i gorff yn debyg. Dywedodd hefyd bod y mwyafrif o'r heriau yn gofyn am fwy o amser cyn gorfod cydymffurfio â safon - yn hytrach na gwrthwynebu safon ar sail rhesymoldeb eu cynnwys. Yr hyn maent yn gofyn am yw fwy o amser cyn gorfod cydymffurfio. Yr eithriad yw Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro - mae'r Bwrdd yna yn herio rhai safonau ar sail rhesymoldeb y cynnwys, nid ar sail amser.

### **4. Adroddiad Sicrwydd**

- Nododd y Comisiynydd byddai'r Adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn yr Eisteddfod. Dywedodd bydd mwy yn yr Adroddiad eleni am ddefnydd gwasanaethau. Ar y cyfan nodwyd bod y cynnwys yn gadarnhaol, ond bod peth llithro wedi'i weld o ran gwasanaethau wyneb yn wyneb.
- Dywedodd y Comisiynydd bod ei swyddfa yn ystyried cael cyngor ystadegydd allanol am y data maent yn casglu.

### **5. Trefniadau/digwyddiadau Eisteddfod Genedlaethol**

- Cytunodd y Comisiynydd a'r Gweinidog y byddai swyddogion cyfathrebu'r ddau gorff yn trafod cynlluniau Eisteddfod, ac amseru unrhyw gyhoeddiadau neu ddigwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal. Dywedodd y Gweinidog bod hi'n hapus i siarad yn lansiad yr Adroddiad Sicrwydd os byddai ar gael.